**EITEM AR YR AGENDA: 12**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**22 Medi 2014**

## DYFARNIAD CYFLOG Y PRIF SWYDDOGION

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

## Diben yr Adroddiad

1 Gofynnir i'r Aelodau gefnogi'r cytundeb ynghylch dyfarniad cyflog 2014 a wnaed gan y Cyd-Gyngor Cenedlaethol (yr NJC) ar gyfer Rheolwyr Brigâd Gwasanaethau Tân ac Achub Awdurdodau Lleol.

## Cefndir

2 Prif rôl y Cyd-Gyngor yw dod i gytundeb ar fframwaith cenedlaethol cyflogau ac amodau Rheolwyr Brigâd i'w cymhwyso'n lleol yn y Gwasanaeth Tân ac Achub yn y Deyrnas Unedig. Yn GTAGC mae'r term 'Rheolwyr Brigâd' yn cyfeirio at swyddi Prif Swyddog Tân, Dirprwy Brif Swyddog Tân a'r Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol.

3 Yn dilyn dyfodiad Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, diwygiwyd Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Diwygio) (Cymru) i adlewyrchu'r newidiadau a ddaeth gyda'r Mesur. Er bod y rhan fwyaf o'r newidadau'n ymwneud ag awdurdodau lleol, mae rhai ohonynt yn berthnasol i'r awdurdodau tân ac achub.

4 Mae Rheoliadau 2014 yn gwneud darpariaeth ynghylch talu prif swyddogion. Pwrpas hyn yw sicrhau bod yn rhaid i unrhyw benderfyniad i amrywio tâl prif swyddogion (neu rai i'w penodi yn brif swyddogion) gael ei wneud gan yr awdurdod llawn heb y posibilrwydd o ddirprwyo hyn i un o bwyllgorau'r awdurdod. Mae hyn yn cynnwys unrhyw godiad cyflog blynyddol a gytunir yn genedlaethol.

## Gwybodaeth

5 Mae'r Cyd-Gyngor wedi dod i'r cytundeb a ganlyn ynghylch dyfarniad cyflog 2014:

- codiad o 1.0% yn y cyflog sylfaenol sy'n berthnasol i reolwyr brigâd sy'n ennill cyflog sylfaenol o £99,999 neu lai (ar 31 Rhagfyr 2013)

- codiad cyfradd safonol o £1000 yn y cyflog sylfaenol sy'n berthnasol i reolwyr brigâd sy'n ennill cyflog sylfaenol o £100,000 neu fwy (ar 31 Rhagfyr 2013).

6 Mae'r uchod mewn grym o 1 Ionawr 2014 ymlaen. Mae Atodiad A yn dangos isafswm cyfraddau blynyddol cyflogau prif swyddogion tân.

## Argymhelliad

7 Bod yr Aelodau'n cefnogi penderfyniad y Cyd-Gyngor fel y nodir uchod.

**Atodiad A**

**Cyfraddau Cyflog Blynyddol Prif Swyddogion Tân**
**O'r 1af Ionawr 2014 ymlaen**

| | |
|---|---|
| **Band poblogaeth 1** | Hyd at 500,000 |
| **Isafswm cyfradd cyflog** | £97,810* |
| **Band poblogaeth 2** | 500,001 i 1,000,000 |
| **Isafswm cyfradd cyflog** | £97,810* |
| **Band poblogaeth 3** | 1,000,001 i 1,500,000 |
| **Isafswm cyfradd cyflog** | £106,738 |
| **Band poblogaeth 4** | 1,500,000 ac uwch (ac eithrio Llundain) |
| **Isafswm cyfradd cyflog** | £117,310 |
| **Band poblogaeth 5** | Llundain |
| **Isafswm cyfradd cyflog** | £128,943 |

* Penodiadau newydd yn unol â pharagraff 5 o'r adroddiad.